# Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Waunfawr 2022/23

**Trefnaint y Cyngor**

**Cynghorwyr** -

**Waunfawr** - Hawys Tuff
Iwan Davies
Edgar Owen
Delyth Jones
Liz Daniel
Doug Jones
Sali Burns
Dafydd Davies
1 Sedd Wag

**Caeathro** - Menna Trenholme
Llion Iwan

**Is-Bwyllgor**:
Fynwent ac Eiddo: Edgar Owen, Iwan Davies, Delyth Jones, Sali Burns

**Cynrychiolaeth**:
Llywodraethwyr Ysgol - Delyth Jones
Unllais Arfon a Dwyfor - Sali Burns a Menna Trenholme
Ganolfan Waunfawr - Edgar Owen
Gwefan: ccwaunfawrcaeathro.co.uk

Cynhelir Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Waunfawr bob 6 wythnos ar nos fercher, yn y Ganolfan yn Waunfawr, Capel Caeathro ac yn rhithiol drost Zoom. Lleoliad wedi ei nodi ar ein calendr cyfarfodydd ar ein gwefan. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd yma, am fwy o fanylion cysylltwch a'r clerc.

**Gweithgareddau'r Cyngor**
Prif ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yw Llwybrau, Cysgodfan Bws, rhoi barn ar geisiadau Cynllunio'r ardal, cae chwarae Gerddi Bach, Fynwent Betws Garmon, a thynnu i sylw Cyngor Gwynedd unrhyw ddiffygion, neu faterion sy'n rhwystr yn yr ardal.

**Gwybodaeth Ariannol**
Preasept ariannol y Cyngor eleni oedd £12,000. Ers 2014/15 mae'r Cyngor Cymuned wedi cadw'r Preasept yr un fath ar £12,000.

**Llwybrau**
Rydym fel yr arfer yn torri'r llwybrau ddwywaith y flwyddyn, fel arfer mis Mai a mis Hydref. Un peth sy'n peri pryder i ni gyd ydi BAW CI. Mae'n amhosib i ni gadw ein pentrefi yn lân a thaclus tram ae perchnogion cwn yn mynnu peidio codi baw eu ci. Mae yna finiau baw ci ym mhob ardal, defnyddiwch hwy os gwelwch yn dda.
Rydym yn derbyn cwynion hefyd o or-yrru yn y pentrefi. Rydym yn hysbysu Cyngor Gwynedd sy'n gosod monitr cyflymder traffic mewn ardaloedd, ac hefyd yr heddlu a mae cerbyd 'Go Safe' yn ymweld a'r pentrefi fel rhan o'i hamserlen.

DRAFT

**Cysgodfannau Bws**
Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y gysgodfannau bws drost y ffordd i'r Hen Bost, Waunfawr a ganol y pentref yn Caeathro. Rydym yn y broses o dderbyn prisiau ar gyfer ail osod hen gysgodfan bws ger yr ysgol Gynradd yn Waunfawr ar gyfer rhoid cysgod i blant pentref Waunfawr sy'n mynychu ysgol Brynrefail ac yn aros am y bws ar y safle yma. Mae cysgodfannau bws newydd wedi eu gosod yn y pentrei yn ddiweddar gan Cyngor Gwyned fel rhan o gynllun Bws Sherpa. Os bydd unrhyw 2o di2i'w adrodd ar rhain yna bydd rhaid cysylltu a Chyngor Gwynedd.

**Cynllunio**
Rydym yn derbyn ceisiadau cynllunio gan Cyngor Gwynedd yn rheolaidd, lle gofynnir i'r Cyngor Cymuned rhoi barn ar y ceisidau hyn. Dosbarthir unrhyw gais Cynllunio a ddaw i law y Clerc i'r Cynghorwyr. Os bydd cyfarfod o fewn y 21 diwrnod sydd ganddom i ymateb, yna trafodir y cais y nein cyfarfod a nodi'r sylwdau, os na fydd cyfarfod wedi ei drefnu yn ystod y cyfnod ymgymghori yna bydd y Clerc yn anfon y cais drwy e-bost i bob Cynghorydd gan ofyn am unrhyw sylwadau er mwyn adrodd yn 2o di Gyngor Gwynedd mewn amser. Os oes unhryw sylwadau gan y cyhoedd i unrhyw gais cynllunio yna mae'n bwysig eich bod yn cysylltu a unrhyw un o'r Cynghorwyr neu Glerc o fewn yr amser ymgynghori.

**Cae Chwarae Gerddi Bach**
Y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am gynnal a chadw y cae chwarae Gerddi Bach. Bydd y gwair yn cael ei dorri ar y safle 6 gwaith y flwyddyn. Bydd yr offer chwarae yn cael ei arolygu unwaith y flwyddyn gan gwmni McVenture, hwy ddaru ddarparu yr offer ar ein rhan, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Cymuned yn flynyddol, ac unrhyw waith cynnal a chadw sydd angen ei wneud yn cael sylw. Os oes unrhyw fater yn 2o di'ch sylw neu unrhyw beth yn peri pryder i chwi yna plis cysylltwch a aelod o'r Cyngor Cymuned.

**Y Fynwent**
Mae Is-Bwyllgor Fynwent ac eiddo gyda 4 aelod o'r Cyngor Cymuned yn aelodau. Cynhelir Cyfarfod i drafod ffioedd Claddu yn y Fynwent, ac os bydd mater brys angen ei drafod yna cynhelir cyfarfod i drafod ac bydd unrhyw benderfyniad sydd ei angen yn cael ei drafod ymhellach yn ein cyfarod llawn o'r Cyngor Cymuned. Bydd gwaith o dorri gwair yn y fynwent yn cael ei wneud yn rheolaidd yn ystod rhwng Ebrill a Hydref.

**Rhoddion**
Dwy waith y flwyddyn derbynir rhoddion gan fudiadau o fewn y Gymuned am rodd. Bydd rhoddion yn cael eu trafod yn ein cyfarfod mis Ebrill a mis Hydref. Mae'n bwysig bod y ceisiadau am roddion yn cael eu hanfon i'r Clerc mewn da bryd er mwyn gallu eu trafod yn ein cyfarfodydd.
Yn ystod 2022-23 cyfranwyd £1,325 rhwng 8 mudiad.

**Amcanion Y Cyngor ar gyfer 2023-24**

- Parhau i gynnal ein cyfarfodydd yn rheolaidd
- Cofnodion pob cyfarfod ar ein gwefan ac yn Eco'r Wyddfa
- Diweddaru y wefan gan roid mwy o wybodaeth lleol
- Cefnogi prosiect Gwyrfai Gwyrdd yn yr ardal
- Cymryd cyfrifoldeb drost y Cae Aml-dywydd tu ol i'r Ganolfan

DRAFT